

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	24 Ionawr 2023
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	8 Chwefror 2023

### PWNC

Eitem 6: CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG - TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU

### PENDERFYNIAD

- 1.1 Cytunwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer gweithredu Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru ar ran chwe sir y Gogledd.
- 1.2 Cytunwyd i'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.
- 1.3 Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – i sefydlu cytundeb cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.
- 1.4 Cytunwyd i'r trefniadau llywodraethu lleol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngwynedd fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.
- 1.5 Awdurdodwyd sefydlu Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i gynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, ynghyd â'r hawl i benodi dirprwy ar y Panel, i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn cael eu dewis i dderbyn arian ar sail y meini prawf nodir yn adrannau 3.30 a 3.31 yr adroddiad.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund / UKSPF) yw un o'r cronfeydd amgen sefydlwyd gan Lywodraeth y DG yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet y Cyngor ar 19 Gorffennaf 2022 (Eitem 7) yn amlinellu cefndir a chynnwys yr UKSPF a'r gofynion o ran sicrhau mynediad i'r arian.

---

Fel cam gyntaf, cyflwynwyd 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol' ar gyfer Gogledd Cymru ar 01 Awst 2022 yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer defnydd y cyllid a'r bwriad ar gyfer ei weinyddu.

Ar 05 Rhagfyr 2022, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DG fod Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ei ddilysu.

Bellach mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025, ynghyd â Llythyrau Penderfyniad Grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 wedi dod i law.

Gyda hyn mae angen cadarnhau'r trefniadau llywodraethu a gweithredu ar gyfer yr UKSPF yng Ngwynedd ac yng Ngogledd Cymru.

---

### **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	8 Chwefror 2023

### PWNC

Eitem 7: CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022

### PENDERFYNIAD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Cymeradwywyd trosglwyddiad o £3.188 miliwn o danwariant ar gyllidebau Corfforaethol i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.
- Argymhellwyd mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwloch ariannol fydd defnyddio:
  - yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r costau ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymhorthyddion, staff gweinyddol a thrydan sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion.
  - yn ail, defnyddio'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd.
  - yn olaf, defnyddio'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	8 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 8: TROSOLWG ARBEDION - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU  
CYNLLUNIAU ARBEDION

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23 a blynyddoedd blaenorol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £595,000 yn 2022/23, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2022.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	8 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 9: RHAGLEN GYFALAF 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2022) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - cynnydd o £30,000 mewn defnydd o fenthyca
  - cynnydd o £2,947,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - cynnydd o £101,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - cynnydd o £20,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - cynnydd o £1,167,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2022/23. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	24 Ionawr 2023
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	8 Chwefror 2023

### PWNC

Eitem 10: CYNLLUN FFLYD WERDD 2023-29

### PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 (a weler yn Atodiad 1) a cytunwyd:

- bod Adrannau'r Cyngor ddim i brynu, adnewyddu, neu waredu unrhyw gerbyd cyn yn gyntaf trafod ei anghenion gyda'r Rheolwr Fflyd, a chael ei gydsyniad;
- bod angen creu system pŵl corfforaethol yn lle rhai Adrannol;
- bod y Rheolwr Fflyd i arwain ar y gwaith o chwynnu'r stoc bresennol o gerbydau'r Cyngor, a chreu strwythur cerbydau i bob Adran.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru), Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (Llywodraeth Cymru) a Chynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23- 2029-2030 Cyngor Gwynedd. 2.2 Nod y Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 yw i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd Fflyd y Cyngor.

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	24 Ionawr 2023
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	8 Chwefror 2023

### PWNC

Eitem 11: ADRODDIAD YMGYNGHORIAD STATUDOL YSGOL CHWILOG A DIWEDDARIAD O'R GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

### PENDERFYNIAD

Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog ynghyd â'r ymatebion i'r sylwadau hynny, a phenderfynwyd:

- Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i ehangu safle'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn 'ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'

Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynydd o dros 25% o'r 65 presennol, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma. Golyga hyn yr angen i gynnal proses statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fyddai'n arwain at gynyddu capasiti'r ysgol. Cam cyntaf y broses statudol oedd cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

Mae angen i'r Cabinet, felly, ystyried yr ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad statudol a phenderfynu os dylid cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023.

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

---

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---



**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	8 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 12: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	8 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 13: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET ADDYSG

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	24 Ionawr 2023
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd</b>	8 Chwefror 2023

**PWNC**

Eitem 14: BLAEN RAGLEN Y CABINET

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol gyda'r cyhoedd. Bydd y Flaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.